| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Amser Teulu** |
| **Lleoliad:** | **Gweithiwr Ystwyth / Canolfan Adnoddau i Deuluoedd, Heol Beaufort, Glynebwy, NP23 5LH** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Swydd Rhif:** | **BG11656** |
| **Cyflog:** | **Gradd 4 (£25,584 - £27,711 y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos** |
| **Contract:** | **parhaol** |

## Crynodeb o'r Swydd

Rôl y Gweithiwr Amser Teulu yw cefnogi'r rheolwr llinell i sicrhau y caiff gwasanaeth amser teulu ansawdd uchel dan oruchwyliaeth ei ddarparu i deuluoedd a phlant ym Mlaenau Gwent.

## Hysbyseb Lawn

Daeth cyfle ar gael o fewn y Tîm Ardal Gwasanaethau Plant ar gyfer Gweithiwr Amser Teulu gyda phrofiad amlwg o weithio gyda a darparu gwasanaethau/rhaglenni i blant, rhieni a gofalwyr.

Byddwch yn gyfrifol am gefnogi trefniadau amser teulu dan oruchwyliaeth fel y cytunwyd gan atgyfeiriad ac adolygiad, gan sicrhau y caiff sesiynau amser teulu eu cynllunio a'u cefnogi i ddiwallu anghenion y plentyn/plant dan sylw ac i gefnogi rhieni wrth ddatblygu eu perthynas a'u cyswllt gyda'u plant i sicrhau fod sesiynau amser teulu mor gadarnhaol ag sydd modd ar gyfer y plentyn/plant.

Mae'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd yn cynnwys cymhwyster proffesiynol perthnasol Lefel 3 (neu uwch) mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Blynyddoedd Cynnar, Addysg (e.e. H&SC, CCLD, NNEB, EYCE) a Diogelu Lefel 1 a 2. Gallwch hefyd ymgysylltu'n effeithlon gydag ystod o weithwyr proffesiynol ac asiantaethau i hyrwyddo gwaith partneriaeth a bydd gennych ddealltwriaeth o anghenion plant sy'n derbyn gofal a/neu angen eu hamddiffyn.

**Mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.**

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Dyddiad Cau: 30.01.2025**

**Dyddiad Llunio Rhestr Fer: 04.02.2025**

**Dyddiad Cyfweliadau: 13.02.2025**